Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Acorn Learning Solutions Limited
**Y Brif Swyddfa,**
**Somerton House,**
**Hazell Drive,**
**Casnewydd,**
**NP10 8FY**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/10/2013**

## Cyd-destun

Acorn Learning Solutions Ltd yw un o'r darparwyr dysgu yn y gwaith (DYYG) mwyaf yng Nghymru. Mae'n rhan o Acorn Group, a'i riant gwmni yw Synergie Global Group yn Ffrainc. Fodd bynnag, mae'r tri chyfarwyddwr sy'n gweithio'n lleol yn gyfrifol am weithrediad y busnes o ddydd i ddydd; mae ei bencadlys yng Nghas-bach rhwng Casnewydd a Chaerdydd.

Pan ddyfarnwyd contract newydd Llywodraeth Cymru i'r darparwr yn 2011, bu gostyngiad yng ngwerth ei gontract i ddechrau. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r darparwr, ar fyr rybudd, dderbyn llawer o ddysgwyr wedi'u dadleoli o ddarparwyr eraill. Bu cynnydd cyfatebol yng nghontract y darparwr o ganlyniad. Mae tua 1,000 o ddysgwyr ar y rhaglen ar hyn o bryd.

Mae'r darparwr yn cyflwyno'r rhaglenni dysgu yn y gwaith canlynol ledled Cymru:

- Prentisiaethau Sylfaen (PSau);
- Prentisiaethau (Pau);
- Prentisiaethau Uwch; a
- Llwybrau at Waith.

Mae'n cynnig y llwybrau hyfforddiant canlynol:

- Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu;
- Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith;
- Busnes a Gweinyddu Ariannol;
- Manwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid;
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu;
- Amaethyddiaeth (Rheoli Gwastraff); a
- Lletygarwch.

Yn sgil tanberfformio gan nifer o'i isgontractwyr, mae bellach wedi'u disodli â phedwar is-gontractwr newydd. Dyma yw ei gontractwyr presennol:

- Morgan Daniels Training;
- Cornerstone Training;
- Vocations Training;
- Charnwood Training;
- Learn Direct (JHP gynt);
- Progression; a
- BT.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y darparwr | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r darparwr | Da |

**Perfformiad presennol**

Gwelwyd tuedd ar i lawr yn erbyn cymaryddion cenedlaethol o ran cyfraddau cwblhau'r fframwaith llawn gan y darparwr ar gyfer dysgwyr dysgu yn y gwaith dros y tair blynedd diwethaf (2009-2012). Fe wnaeth perfformiad anfoddhaol rhai o'i isgontractwyr blaenorol, ynghyd â derbyn nifer o ddysgwyr wedi'u dadleoli o ddarparwyr, a fethodd sicrhau contractau Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu yn y gwaith, gyfrannu at y tanberfformio hwn.

Fodd bynnag, mae'r darparwr wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r duedd hon trwy ddisodli'r isgontractwyr oedd yn methu, ailstrwythuro ei sefydliad ac adolygu'r ffordd y mae'n monitro perfformiad yn ei holl ddarpariaeth. Mae hefyd wedi cyflwyno gweithdrefnau mwy cadarn ar gyfer is-gontractwyr, gan gynnwys rhaglen ymsefydlu tridiau ar eu cyfer.

Mae'r darparwr wedi rhoi mecanweithiau da ar waith ar gyfer codi ymwybyddiaeth dysgwyr o Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (ADCDFE), yr iaith Gymraeg a'i diwylliant a lles. Mae'r rhain yn cynnwys canolfannau gwe i ddysgwyr allu cael gwybodaeth gyfoes. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddysgwyr wedi defnyddio pob un o'r safleoedd hyn eto. Bu cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r Gymraeg yn ystod asesiadau ac adolygiadau, ond nid yw'r darparwr wedi gwneud digon i godi ymwybyddiaeth am yr iaith ymhlith dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg.

**Rhagolygon gwella**

Mae gallu'r darparwr i wella yn dda oherwydd:

- mae wedi cymryd camau pendant i ddelio ag isgontractwyr sy'n tanberfformio ac mae wedi rhoi gweithdrefnau da ar waith ar gyfer ymsefydlu isgontractwyr newydd;
- mae cynlluniau da ar waith i ymgysylltu'n llawn â'r holl isgontractwyr, gan gynnwys datblygiad staff wedi'i gefnogi gan y systemau busnes a'r dechnoleg fusnes ddiweddaraf;
- mae gwelliant mewn monitro data, gan gynnwys defnydd gwell o system fonitro a chyflwyno system goleuadau traffig i nodi tanberfformio yn gyflymach ar draws ei ddarpariaeth; ac
- mae gosod targedau ar gyfer gwella'r deilliannau ar gyfer pob dysgwr yn briodol.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfraddau y mae ymadawyr yn cyflawni eu fframweithiau ac yn ennill cymwysterau eraill arnynt

A2 Gwneud defnydd gwell o dargedau tymor byr penodol ar gyfer datblygu medrau dysgwyr

A3 Gwella'r graddau y mae dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ADCDFE a'r iaith Gymraeg a'i diwylliant

A4 Gwneud yn siŵr bod rheolwyr yn troi cyfeiriad strategol y darparwr yn amcanion gweithredol

A5 Gwella'r broses hunanasesu i sicrhau bod yr adroddiad hunanasesu yn gyfoes ac arfarnol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y darparwr yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad yn y cynllun gwella i'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) fel rhan o'r cylch cynllunio gwelliant rheolaidd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

At ei gilydd, mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau eu rhaglen ac yn ennill eu cymhwyster fframwaith llawn arni yn ddigonol.

Mae tuedd tair blynedd y darparwr (2009-2012) ar gyfer cyfraddau llwyddo cyffredinol o ran fframwaith i ddysgwyr, sy'n cynnwys Prentisiaethau Modern Sylfaen (PMS) a Phrentisiaethau (P), yn dangos gostyngiad yn erbyn cyfradd o wella yn y cymaryddion cenedlaethol.

Mae'r data diweddaraf a wiriwyd (2011-2012) yn dangos bod gan gyfraddau llwyddo o ran fframwaith ar gyfer rhaglenni Prentisiaeth Fodern (PMS) a Phrentisiaeth (P) gyfradd lwyddo gyffredinol o 82% yn erbyn cymharydd cenedlaethol o 85%.

Mae data mewnol nas gwiriwyd y darparwr ar gyfer 2012-2013 yn dangos gwelliant ar gyfer y ddwy raglen gyda chyfradd lwyddo gyffredinol arfaethedig o 86%.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu medrau galwedigaethol ac ymarferol priodol. Mae rhai dysgwyr yn defnyddio eu dysgu'n dda i wella'r gwasanaethau a ddarperir gan eu sefydliadau.

Mae pob dysgwr yn defnyddio system portffolio ar-lein i gofnodi eu cynnydd (e-bortffolio). Mae safon eu gwaith yn dda ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn elwa ar adolygiadau adeiladol a manwl gyda'u hymgynghorwyr hyfforddi a gallant lawrlwytho recordiadau o'r adolygiadau a gwrando arnynt. Mae gan bob dysgwr gynlluniau dysgu unigol (CDUau) da. Fodd bynnag, nid yw CDUau llawer o ddysgwyr yn cynnwys nodau dysgu tymor byr penodol a heriol.

Mae pob dysgwr yn astudio cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) fel rhan o'u fframwaith. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn ennill lefelau uwch o gymwysterau SHC na'r hyn sy'n ofynnol gan eu fframwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos medrau llafar, darllen ac ysgrifennu da, ond nid yw medrau rhifedd lleiafrif o ddysgwyr yn ddigon da.

Gall dysgwyr Cymraeg ddefnyddio'u medrau iaith a chael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gwella'u medrau Cymraeg yn ddigon da.

**Lles: Da**

Mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylcheddau dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn cael cymorth da ac maent yn gwybod beth i'w wneud os oes angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o faterion iechyd a diogelwch.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu ac yn cynnal perthynas waith dda gyda rheolwyr, cyflogwyr, aseswyr a chyfoedion. Mae presenoldeb dysgwyr yn dda mewn hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.

Yn y sesiynau a arsylwyd, cymerodd rhai dysgwyr ran mewn trafodaethau da am ffyrdd iach o fyw, a rhai dysgwyr yn unig sy'n gallu manteisio ar gyfleusterau campfa. Roedd mwyafrif y dysgwyr yn ymwybodol o ganolfan les y darparwr, sef man gwybodaeth ar y we, sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor da ar les.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol ac aeddfed at eu hyfforddiant. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu dysgu. Mae hyn yn effeithiol o ran eu helpu i ddatblygu ystod eang o fedrau ymarferol a damcaniaethol i'w paratoi ar gyfer byd gwaith.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn hapus ar eu rhaglenni ac yn teimlo'n fwy hyderus o ganlyniad i'w hyfforddiant. Dangosant frwdfrydedd, ymrwymiad a chymhelliant da. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn awyddus i fynd yn eu blaenau i lefelau uwch o hyfforddiant.

Mae pob dysgwr yn cyfrannu'n dda iawn at holiaduron adborth a thrafodaethau. Mae Arolwg Llais y Dysgwr yn dangos bod lefelau boddhad dysgwyr gyda'r darparwr ymhell uwchlaw meincnod y sector.

Mae rhai dysgwyr yn cymryd rhan yn dda mewn gweithgareddau cymunedol amrywiol ac maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian sy'n cefnogi elusennau lleol. Mae rhai dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth dda o anghenion pobl eraill yn eu cymuned ac maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol ehangach.

Yn y cyfnod ymsefydlu, mae'r darparwr yn cyflwyno llawlyfr defnyddiol i bob dysgwr, sy'n cynnwys gwybodaeth briodol am y cymorth a'r arweiniad y gall dysgwyr ei ddisgwyl. Fodd bynnag, prin yw'r dysgwyr sy'n ei ddefnyddio neu'n cyfeirio ato yn ddiweddarach.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ystod eang o ddarpariaeth y darparwr yn bodloni anghenion cyflogwyr a dysgwyr yn dda. Mae mwyafrif y cyflogwyr yn ymwneud yn agos â'r dysgwr wrth gynllunio asesiadau. Mae hyn yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd da. Mewn rhai achosion, mae'r darparwr yn rhoi cymorth da iawn i gyflogwyr wrth recriwtio a dewis dysgwyr. Mae'r darparwr wedi gweithio'n dda gyda chyflogwyr lleol a rhyngwladol i ddatblygu rhaglenni hyfforddi da sy'n gwella rhaglenni hyfforddi'r cyflogwyr eu hunain, ac yn ychwanegu atynt.

Mae'r darparwr yn cefnogi Rhwydweithiau Dysgu 14-19 yn dda. Mae hyn yn cynnwys helpu dysgwyr i ennill medrau galwedigaethol perthnasol ac addysg yn gysylltiedig â gwaith tra byddant yn yr ysgol trwy bartneriaethau gyda chyflogwyr. Er enghraifft, mae siop manwerthu fawr wedi gwneud cyflwyniadau mewn ysgolion i

esbonio beth y maent yn ei ddisgwyl o ddysgwyr ym myd gwaith ac i wella ymwybyddiaeth gymdeithasol ac economaidd dysgwyr.

Mae aseswyr yn adolygu canlyniadau asesiadau sgrinio cychwynnol dysgwyr yn ystod eu cyfweliadau recriwtio. Mae staff y darparwr yn gwneud defnydd da o'r rhain i gytuno ar amcanion a thargedau cynllun dysgu unigol. Mae CDUau ac adolygiadau asesu dysgu yn cynnwys targedau da i ddatblygu llythrennedd a rhifedd dysgwyr, er nad yw targedau'n ddigon penodol mewn lleiafrif o achosion. Mae staff y darparwr yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud aseiniadau medrau hanfodol sy'n cyd-fynd â'u gwaith yn dda. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu a dangos eu medrau a'u gwybodaeth alwedigaethol ymhellach. Er enghraifft, datblygodd un dysgwr system ar-lein i fonitro cynnydd o ran materion cwsmeriaid. Mae hyn wedi helpu i wella cyfathrebu o fewn y cwmni a gyda'i gwsmeriaid.

Ceir enghreifftiau da o ymgynghorwyr hyfforddi yn annog dysgwyr i feithrin medrau hanfodol ar lefel uwch. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw'r lefel y mae dysgwyr yn gweithio arni yn eu galluogi i ddatblygu eu medrau ymhellach. Mae'r darparwr yn annog dysgwyr i gymryd rhan mewn medrau allweddol ehangach, ond mae'r nifer sy'n manteisio ar hyn yn rhy amrywiol.

Mae gan y darparwr strategaeth ddefnyddiol ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Canolfan Gymraeg yn ddiweddar i godi ymwybyddiaeth dysgwyr am yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae darpariaeth dda ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Mae'r darparwr yn galluogi ymgeiswyr Cymraeg i gael eu cyfweliadau recriwtio yn Gymraeg. Fodd bynnag, prin y mae'r iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ymhlith dysgwyr di-Gymraeg.

Mae mwyafrif yr ymgynghorwyr hyfforddi yn defnyddio pynciau cyfoes yn dda i drafod cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae hyn yn rhy arwynebol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn deall datblygiad cynaliadwy ond mae eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang yn wael.

**Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu'n dda. Mae gan y rhan fwyaf o staff ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr ac maent yn eu hannog i gyflawni safon dda o fedrau theori a medrau ymarferol sy'n briodol i'w rolau swydd. Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn meddu ar wybodaeth dda a chyfoes am eu maes galwedigaethol a'u pwnc arbenigol. Defnyddiant eu harbenigedd a'u profiad proffesiynol yn dda i hyfforddi a chynorthwyo'r dysgwyr yn effeithiol.

Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn cynllunio ac yn paratoi eu sesiynau hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn dda. Mae ganddynt gynlluniau gwersi manwl gyda nodau ac amcanion clir. Mae bron pob un o'r sesiynau hyfforddi yn y gweithle. Maent yn cysylltu'n agos ag anghenion a busnes y cyflogwr ac anghenion hyfforddi a datblygu'r dysgwr. Mae mwyafrif y cyflogwyr yn gwbl ymwybodol o gynnydd dysgwyr. Mae bron pob un o'r sesiynau hyfforddi yn cynnwys cyfeiriad at gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu medrau hanfodol, a gwybodaeth am ADCDFE a'r dimensiwn Cymreig.

Caiff medrau llythrennedd a rhifedd eu datblygu yng nghyd-destun bron pob un o'r meysydd dysgu galwedigaethol. Mae hyn yn gweithio'n dda. Mae mwyafrif yr ymgynghorwyr hyfforddi yn cywiro camgymeriadau sillafu a gramadegol ym mhortffolios CGC a gwaith aseiniad arall dysgwyr. Maent yn rhoi sylwadau adeiladol yn ysgrifenedig ac ar lafar, i esbonio sut gall dysgwyr wella.

Mae'r darparwr yn gwneud yn siŵr bod bron pob un o'r dysgwyr yn defnyddio e-bortffolio CGC. Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn defnyddio 'ysgrifbin cyrchfan', sy'n cofnodi ac yn storio data yn electronig, i gofnodi tystiolaeth asesu ac agweddau eraill ar waith dysgwyr. Mae'r dulliau asesu electronig hyn yn rhoi adborth i'r dysgwr a'r darparwr ar unwaith bron. Maent wedi lleihau gwaith papur yn sylweddol hefyd, ac maent yn effeithiol iawn wrth olrhain a chofnodi cynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae cyflymder yr asesu yn rhy araf, ac o ganlyniad, ni all dysgwyr wneud y cynnydd y gallant ei wneud.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y darparwr weithdrefnau da ar waith i sicrhau bod dysgwyr yn cael gofal, cymorth ac arweiniad priodol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael cymorth da gan eu hymgynghorwyr hyfforddi a staff cymorth eu darparwr.

Mae'r rhan fwyaf o ymgynghorwyr hyfforddi yn cynnal cyfnod ymsefydlu iechyd a diogelwch trylwyr gyda dysgwyr ac maent yn gwirio dealltwriaeth dysgwyr o faterion iechyd a diogelwch yn y gweithle yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael cyngor ac arweiniad da cyn cofrestru ar eu rhaglen. Mae hyn yn cynnwys y disgwyliadau sydd gan y darparwr a'r cyflogwr o'r dysgwr.

Mae gan y darparwr strategaethau effeithiol ar waith i hyrwyddo ymddygiad da. Mae'n monitro presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr yn dda. Mae trefniadau priodol ar waith i ddelio â bwlio ac aflonyddwch, a rhoddir arweiniad clir i ddysgwyr yn eu llawlyfrau dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys llawlyfr sy'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am gydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, prin yw'r dysgwyr sy'n cyfeirio at eu llawlyfrau yn ddiweddarach yn ystod eu cyfnod ar eu rhaglen.

Mae gan y darparwr bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu. Mae gan bob un o'r staff hyfforddi wiriad cyfredol gan y SCT/Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac mae'r darparwr yn diweddaru ac yn adolygu'r wybodaeth hon yn rheolaidd. Mae pob un o'r staff hyfforddi yn mynychu hyfforddiant diogelu gorfodol.

Mae'r darparwr yn gwneud yn siŵr bod pob un o'r dysgwyr yn cael asesiad cychwynnol i nodi unrhyw anghenion medrau sylfaenol. Mae gan y rhan fwyaf o ymgynghorwyr hyfforddi dystysgrif Ymarferwr Lefel 3 Sgiliau Hanfodol Cymru erbyn hyn, sy'n gwella'r cyfle i ddysgwyr allu manteisio ar diwtoriaid cymwys i gefnogi eu hanghenion llythrennedd a rhifedd yn y gweithle ac yn eu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Mae cynlluniau dysgu ychwanegol ar waith ar gyfer dysgwyr lefel mynediad y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae staff yn monitro effeithiolrwydd y cymorth yn rheolaidd ac yn rhoi mwy o gymorth yn ôl yr angen. Mae anogwyr dysgu ar gael i ddysgwyr hefyd, sy'n rhoi cymorth un i un ychwanegol pan fydd angen.

Mae gan y darparwr adnoddau cymorth arbenigol da ar gyfer dysgwyr ag anghenion anabledd. Mae hyn yn cynnwys partneriaeth effeithiol gyda nifer o asiantaethau arbenigol fel Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful (MTIB). Mae rheolwyr yn gweithio'n dda gyda'r sefydliad hwn i sicrhau bod cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr sydd â nam ar eu golwg.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y darparwr agwedd gynhwysol at ddysgwyr ac mae'n eu briffio'n dda ar ei bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth pan fyddant yn ymuno. Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn cyfeirio at hyn yn ystod adolygiadau i fonitro ac ymestyn dealltwriaeth dysgwyr. Mae rhai dysgwyr yn ymgymryd ag aseiniadau ychwanegol ar gydraddoldeb yn y gweithle sy'n cysylltu â busnes y cyflogwyr. Yn y sesiynau adolygu gyda'u haseswyr, mae dysgwyr yn dangos lefel uchel o gymorth i'w gilydd ac maent yn dangos gallu da i wrando ar ei gilydd gyda pharch.

At ei gilydd, mae safon lleoliadau gweithle yn uchel ac fe gaiff dysgwyr fanteisio ar offer a chyfleusterau modern sy'n eu helpu i wneud y cynnydd gorau wrth ddatblygu eu medrau. Mae pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Mae staff y darparwr yn atgoffa dysgwyr yn rheolaidd am y gweithdrefnau y dylid eu dilyn pe bai problem ynghylch bwlio neu aflonyddwch yn codi. Mae pob un o'r cyflogwyr yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu manteisio ar offer a chyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) o ansawdd da. Mae gan y rhan fwyaf o gyflogwyr ystafelloedd ymneilltuo priodol ar gyfer cynnal trafodaethau preifat gydag ymgynghorwyr hyfforddi. Mae safon cyfleusterau dysgu i ffwrdd o'r gwaith yn uchel ac maent yn galluogi dysgwyr i elwa ar adnoddau ac offer da.

Mae'r darparwr yn gwneud defnydd effeithiol o safbwyntiau a barn dysgwyr a chyflogwyr. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon boddhad dysgwyr a chyflogwyr, sy'n llywio hunanarfarnu a chynllunio datblygu ansawdd. Mae'r darparwr yn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd ac adborth yn cael ei roi ar unrhyw faterion a godir gan ddysgwyr a chyflogwyr o ganlyniad i'r arolygon.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae tri chyfarwyddwr y darparwr yn gyfrifol am gyfeiriad a rheolaeth strategol y contract dysgu yn y gwaith. Mae gan bob un o'r tri chyfarwyddwr brofiad helaeth o'r sector dysgu yn y gwaith ac maent yn gwbl ymwybodol o bolisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau lleol. Mae'r darparwr yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i lywio'i gynllun busnes. Mae'r darparwr yn rhoi anghenion dysgwyr yn gyntaf ac mae'n blaenoriaethu ei gysylltiadau gyda chyflogwyr yn briodol hefyd. Mae'r cyfarwyddwyr yn rhoi cyfarwyddyd ac arweiniad clir i'w staff. Mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn y darparwr. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr bob amser yn troi cynlluniau strategol yn amcanion gweithredol i bob un o'r staff eu dilyn.

Mae cyfathrebu yn y darparwr yn dda ac fe gaiff staff wybodaeth wythnosol am fusnes y cwmni, cylchlythyrau chwarterol, gallant fynd ar wefan fewnol ar gyfer staff a mewnrwyd sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd.

Ar ôl rhesymoli'r ddarpariaeth dysgu yn y gwaith yng Nghymru yn 2011, ar gais Llywodraeth Cymru, cymerodd y darparwr gyfrifoldeb am nifer o ddysgwyr wedi'u dadleoli. Er bod perfformiad y darparwr ei hun eisoes yn dirywio yn erbyn y cymaryddion cenedlaethol, cafodd derbyn y dysgwyr ychwanegol hyn fwy o effaith negyddol ar ei berfformiad. I ddechrau, cymerodd rheolwyr gamau cefnogol ar gyfer y dysgwyr a'r isgontractwyr oedd â mwyafrif y dysgwyr. Fodd bynnag, ni weithiodd hyn yn effeithiol ac mae'r darparwr wedi disodli'r isgontractwyr sy'n methu erbyn hyn.

O ganlyniad i'r profiad hwn yn gynharach eleni, ar ôl ymgynghori â staff, ailstrwythurodd y cyfarwyddwyr ei fusnes yn bedair rhan i ddarparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr ar gyfer dysgwyr a chyflogwyr. Daeth hyn ag ochr gyflwyno'r busnes at ei gilydd i gynnwys gweithgareddau masnachol gyda'r dysgu yn y gwaith. Mae'r cwmni bellach yn canolbwyntio ar gyflwyno dysgu, sy'n cael ei gefnogi gan y tair rhan arall, sef: ymgysylltu â chyflogwyr; sicrhau ansawdd a chydymffurfio â chontractau; a data ac ansawdd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y newidiadau hyn.

Mae gan y cyfarwyddwyr gyfrifoldeb cyffredinol am gyllidebau ac maent yn adolygu gwariant a pherfformiad y cwmni'n rheolaidd, gan gynnwys monitro perfformiad isgontractwyr. Maent yn gwneud hyn yn dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Yn sgil ailstrwythuro rheolwyr yn ddiweddar, galluogwyd y darparwr i adolygu llawer o'r systemau a'r prosesau sy'n cefnogi gwella ansawdd ar draws y sefydliad. Mae'n rhy gynnar i farnu effaith yr ailstrwythuro hwn ar ei berfformiad. Fodd bynnag, mae'r darparwr wedi gwella prosesau ar gyfer monitro a rheoli isgontractwyr hefyd. Mae hyn yn cynnwys defnydd gwell o ddata ar draws ei ddarpariaeth.

Sefydlwyd gweithgor mewnol o'r enw 'Aspire' i ddatblygu meysydd allweddol o'r ddarpariaeth, gan gynnwys ansawdd. Mae'r grŵp wedi cael rôl allweddol mewn cyflwyno proses newydd ar gyfer arsylwi cyfoedion, prosesau gweinyddol symlach, a diwygio dogfennau allweddol i sicrhau bod ymgysylltu â dysgwyr yn well. Mae staff y darparwr a'r is-gontractwr yn defnyddio'r grŵp yn dda i fodloni a rhannu arfer dda. Mae staff yn cymryd rhan yn dda yn y gweithgareddau datblygu hyn.

Mae proses yr adroddiad hunanasesu yn cynnwys pob un o'r staff a'r isgontractwyr. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o ystod o ffynonellau, gan gynnwys safbwyntiau dysgwyr a chyflogwyr trwy arolygon ac ymgysylltu da â chyflogwyr, arsylwadau cymheiriaid ac archwiliadau mewnol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu diweddaraf yn fanwl ond mae'n rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n ddigon arfarnol.

Mae cynllun busnes yn cefnogi datblygu ansawdd yn dda a gosodir targedau ar gyfer gwella. Mae'r prif gynllun datblygu ansawdd yn arf diagnostig defnyddiol sy'n seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. Mae'r cynllun yn nodi meysydd i'w gwella, fel cynyddu cyfraddau llwyddo fframwaith dysgwyr mewn meysydd pwnc yn benodol i sector. Mae hefyd yn cysylltu targedau datblygiad a pherfformiad staff â

chynyddu deilliannau dysgwyr a gwella ansawdd yn barhaus. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r camau yn ddigon penodol.

Mae staff o'r darparwr a'r isgontractwyr yn ymgymryd ag ystod dda o ddatblygiad staff priodol ac maent yn cyfrannu'n dda at sefydliadau cenedlaethol fel Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru. Mae cyfleoedd da ar gyfer rhannu arfer dda trwy amrywiaeth o weithgorau. Mae rhaglen ymsefydlu tridiau yn golygu bod isgontractwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o weithdrefnau ansawdd a blaenoriaethau'r darparwr.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

At ei gilydd, mae gan y darparwr arferion gweithio da gydag ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys y prif isgontractwyr yn ogystal â chyflogwyr, awdurdodau lleol, ysgolion a darparwyr addysg uwch. Mae'r enghraifft dda hon o weithio mewn partneriaeth yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad dysgwyr.

Mae'r darparwr wedi adolygu ei drefniadau is-gontractio yn ddiweddar ac mae bellach yn gweithio gydag wyth is-gontractwr, y mae pump ohonynt yn rhai newydd. Mae'n rhy gynnar i roi sylwadau ar effaith y datblygiadau hyn.

Mae'r darparwr wedi datblygu gweithdrefnau newydd, cadarn a chynhwysfawr i isgontractwyr eu dilyn. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau misol o berfformiad a dogfennaeth yn ogystal â threfniadau cyson ar gyfer ymsefydlu. Mae'r darparwr wedi datblygu pecyn ymsefydlu cynhwysfawr ar gyfer pob un o'r isgontractwyr newydd, sy'n ymdrin â phob agwedd ar drefniadau is-gontractio, gan gynnwys disgwyliadau'r darparwr a'r cymorth sydd ar gael.

At ei gilydd, mae'r darparwr yn cyfathrebu'n dda ag isgontractwyr. Mae staff llawer o isgontractwyr yn ymuno â staff y darparwr ar gyfer cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi i rannu gwybodaeth ac arfer dda.

Mae'r darparwr wedi datblygu perthynas weithio effeithiol gydag ystod eang o gyflogwyr. Mae hefyd wedi datblygu cysylltiadau da gydag ystod eang o bartneriaid i ddarparu hyfforddiant ar gyfer dysgwyr cyn-16 ac ôl-16. Mae partneriaid yn cynnwys rhwydweithiau 14 i 19 yn ardal y darparwr, cyflogwyr lleol a chenedlaethol, ysgolion, darparwyr addysg uwch (AU) a Gyrfa Cymru.

Mae'r darparwr yn gweithio'n arbennig o dda gydag ysgolion yn ardaloedd Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf i gyflwyno ystod dda o lwybrau dysgu galwedigaethol i ddisgyblion Blynyddoedd 10, 11 a 12 a rhaglen medrau gwaith i ddisgyblion Blwyddyn 10 sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg. Mae'r llwybrau dysgu galwedigaethol yn cynnwys deuddydd o weithgareddau galwedigaethol y tu allan i ysgolion. Mae'r darparwr yn gweithio'n dda gyda nifer o ysgolion Caerdydd i gyflwyno rhaglen arweinyddiaeth a rheolaeth ar lefel 2 i ddisgyblion mwy abl a dawnus. Mae'n gweithio'n dda gydag ysgol arbenigol hefyd i gefnogi anghenion addysgol awtistig ac arbennig ym Mlynyddoedd 11 a 12.

Mae'r darparwr wedi sefydlu cysylltiadau da gyda darparwyr AU i gyflwyno dyfarniadau ac unedau addysg uwch. Er enghraifft, mae ganddo berthynas waith

agos gyda Phrifysgol Sefydliad Blaenau'r Cymoedd. Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn cymryd rhan weithredol yng ngwaith nifer o sefydliadau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

At ei gilydd, mae gan y darparwr brosesau a gweithdrefnau ar waith i reoli adnoddau'n dda. Mae'r cyfarwyddwyr strategol yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro perfformiad a sicrhau bod gwariant yn gweddu i anghenion dysgwyr a chyflwyno ei gontract dysgu yn y gwaith.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod archwiliadau ariannol rheolaidd yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn ariannol. Mae uwch reolwyr yn adolygu cyllidebau bob mis ac maent yn cymryd camau i sicrhau sefydlogrwydd ariannol. Mae'r darparwr yn gwneud yn siŵr bod isgontractwyr yn cael eu hariannu'n gymesur â'u contract gyda'r darparwr.

Mae'r darparwr wedi datblygu polisi 'Gwerth am Arian' i fesur effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd rhaglenni. Fodd bynnag, nid yw'r broses hon wedi cael effaith arwyddocaol ar wella deilliannau dysgwyr eto.

Mae'r darparwr yn cyflogi nifer briodol o staff sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad addas. Er enghraifft, bu llawer o aseswyr ac ymgynghorwyr hyfforddi yn gweithio yn y sector bancio yn y gorffennol. Mae'r darparwr yn eu defnyddio'n effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u medrau a'u profiad.

Caiff y rhan fwyaf o staff gyfleoedd da i gael hyfforddiant a chymwysterau priodol. Mae gan y darparwr gynllun dysgu a hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer staff sy'n cynnwys targedau priodol. Mae'r rhain wedi'u halinio'n agos â blaenoriaethau strategol allweddol y darparwr.

Mae pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant medrau sylfaenol ac mae bron pob un ohonynt wedi ennill cymwysterau ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o staff hyfforddi a gyflogir gan isgontractwyr wedi ennill y cymwysterau hyn eto.

Mae rhai aelodau o staff yn rhan o dîm 'Aspire' sydd wrthi'n datblygu'r defnydd o dechnoleg i wella dysgu a gwella effeithlonrwydd. Mae staff y darparwr yn defnyddio E-bortffolios, gweminarau (cyswllt fideo), chwaraewyr MP3 ac ysgrifbinnau cyrchfan yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw pob is-gontractwr yn defnyddio nac yn gallu manteisio ar yr adnoddau hyn.

Mae'r darparwr yn rheoli adnoddau dysgu ac adeiladau yn effeithiol. Mae'r adnoddau ym mwyafrif y cyfleusterau hyfforddi'n dda, ac maent yn cynnwys ystod briodol o offer TGCh.

Mae'r deilliannau digonol ar gyfer dysgwyr yn golygu bod y darparwr yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Roedd canlyniadau holiaduron llais y dysgwr y darparwr yn gadarnhaol iawn. Teimlai saith deg tri y cant o ddysgwyr fod y darparwr yn dda iawn ar y cyfan. Teimlai naw deg y cant fod eu hyfforddiant yn well nag yr oeddent yn ei ddisgwyl. Ym mhob un o'r pum prif agwedd ar lais y dysgwr, gan gynnwys gwybodaeth a chyngor, iechyd a lles, addysgu a hyfforddi, ymatebolrwydd a chymorth a chefnogaeth, roedd y darparwr yn well na'r cyfartaledd ar gyfer y sector.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Bernard O'Reilly | Arolygydd Cofnodol |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Sharon James | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward | Arolygydd Tîm |
| Sandra Barnard | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Christopher Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Marshal Clayton | Arolygydd Cymheiriaid |
| Anne Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lawrence Wood | Arolygydd Cymheiriaid |
| Barbara Poole | Enwebai'r Darparwr |